**Vaughan Gething AC / AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/ VG/2195/18

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

26 Mehefin 2018

Annwyl Dr Lloyd,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 30 Mai yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn perthynas â gwasanaethau y tu allan i oriau yng Nghymru.

Rwy'n deall bod Cadeirydd Coleg Brenhinol Meddygon Teulu wedi gofyn i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon 'gynnal ymchwiliad i ffyrdd o wella'r ddarpariaeth o wasanaethau y tu allan i oriau' ond cyn ichi wneud penderfyniad, roeddech yn awyddus i gael darlun eglur o'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r gwasanaethau y tu allan i oriau yng Nghymru wedi wynebu nifer o heriau newydd dros y misoedd diwethaf, ac mae swyddogion yn gweithio gyda'r GIG, i ddod o hyd i ffyrdd o wella. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r gwasanaethau sydd ar gael yn ystod y cyfnod y tu allan i oriau.

Cefais gyfarfod â Dr Payne ym mis Ebrill i drafod nifer o gynigion. Mae swyddogion, wrth gyflawni gwaith dilynol, wedi cyfarfod â Dr Payne a'i chydweithwyr yng Ngholeg Brenhinol Meddygon Teulu yn fwy diweddar, ac maent yn parhau i gael trafodaethau yn rheolaidd. Hefyd cymerodd Dr Payne ran mewn uwchgynhadledd glinigol ar 24 Mai a oedd yn ymwneud â gofal heb ei drefnu. Rwy'n falch bod y Coleg yn fodlon gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i gyflwyno newidiadau.

Rydym yn cyflwyno rhaglen 111 yng Nghymru er mwyn gwella'r gwasanaeth a gynigir i bobl sydd ag anghenion brys y tu allan i oriau. Bydd y gwasanaeth 111 yn darparu fframwaith cenedlaethol a mwy o gysondeb i gleifion, rhywbeth sy'n hanfodol os ydym am foderneiddio'r gwasanaethau gofal y tu allan i oriau.

Byddwch yn cofio imi wneud datganiad ysgrifenedig ar y *Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Braenaru 111 yng Nghymru* ar 5 Ebrill 2018. Roedd y gwerthusiad wedi rhoi tystiolaeth gadarn inni fod y gwasanaeth 111 yn cynnig manteision sylweddol i gleifion; ac rwyf wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r gwasanaeth hwn yn y GIG yn ystod y 2-3 blynedd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

nesaf. Mae buddsoddiad sylweddol mewn system TG bwrpasol, a fydd ar gael ar draws pob un o'r saith bwrdd iechyd lleol, yn darparu sail i'r gwaith o gyflwyno'r gwasanaeth.

Rwy'n cydnabod yr angen am arweinyddiaeth wrth weithredu agenda y gwasanaeth y tu allan i oriau, ac felly bydd Judith Paget, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ymgymryd â'r rôl weithredol arweiniol. Mae ychwanegu'r gwasanaeth y tu allan i oriau at ei phortffolio gofal sylfaenol a'r gwasanaeth 111 yn gwneud synnwyr yn strategol, a bydd yn sbarduno mwy o gyfeiriad a chyflymder strategol. Cyfarfodd gweithgor newydd am y tro cyntaf ar 21 Mehefin, a byddaf yn disgwyl i'r grŵp hwn ddarparu cyngor ar ba gamau y mae'n rhaid eu cymryd i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

Mae gwella ansawdd y gwasanaeth y tu allan i oriau yn hanfodol, ac rwy'n falch bod broses adolygu gan gymheiriaid ar gyfer y gwasanaethau y tu allan i oriau yn cael ei datblygu yn seiliedig ar *Fframwaith Adolygiadau gan Gymheiriaid GIG Cymru: Gorffennaf 2017.* Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar y cyd â'r byrddau iechyd i drefnu cyfres o baneli adolygu gan gymheiriaid yn ystod y misoedd nesaf, a bydd y rhain yn canolbwyntio ar weithredu mewn meysydd penodol. Bydd yr adolygiadau hyn yn cael eu harwain yn glinigol, a byddant yn adolygu tystiolaeth ac yn cynnal trafodaethau er mwyn cynhyrchu cynlluniau gweithredu lleol cytûn.

Yn gynharach eleni, gofynnwyd i Gyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol a Gofal Iechyd Meddwl gydweithio i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer Cymru gyfan er mwyn ymateb i'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau y tu allan i oriau. Mae'r cynllun gweithredu yn cael ei gefnogi gan y tîm 111, ac mae’r gwaith o weithredu'r cynigion hyn yn cael ei wneud wrth baratoi ar gyfer y gaeaf nesaf.


Mewn cyd-destun ehangach, mae llawer o waith wedi ei gyflawni i ddatblygu model ar gyfer trawsnewid gofal sylfaenol, a fydd yn sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol ar gael 24 awr 7 diwrnod yr wythnos. Yr allwedd i hyn yw rhoi mwy o gefnogaeth i ddull gweithredu sy’n manteisio ar sgiliau timau aml-ddisgyblaeth i ddarparu gofal, gan hyrwyddo dull gweithredu sy'n golygu bod meddygon teulu yn arwain gwasanaethau yn hytrach na’u rheoli. Wrth i hyn gael ei ddatblygu ymhellach, bydd mwy o fanylion yn cael eu rhannu.

Yn olaf rwy'n awyddus i dynnu eich sylw at gyfres o adolygiadau ac adroddiadau sy’n craffu ar wasanaethau y tu allan i oriau, ac a gynhaliwyd yn ystod y misoedd diwethaf. Mae Uned Gyflawni'r GIG wedi rhoi adroddiad Cymru gyfan ganol blwyddyn i Lywodraeth Cymru ynghylch perfformiad yn erbyn y safonau ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Bwrdd ar gyfer Cynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru adroddiad ar wasanaethau y tu allan i oriau.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi cynnal cyfres o adolygiadau o wasanaethau y tu allan i oriau byrddau iechyd lleol unigol. Cafodd y rhain eu rhoi i’r byrddau iechyd lleol yn 2017, a chawsant eu hystyried drwy brosesau llywodraethu arferol y byrddau. Ochr yn ochr â hyn, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau ei hadolygiad Cymru gyfan yn ddiweddar, a maes o law bydd yn cyhoeddi adroddiad ar *Wasanaethau Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau*. Bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn debygol o graffu ar yr adroddiad diweddar hwn.

Mae'n bosibl eich bod chi a'r Pwyllgor yn teimlo bod hwn yn amser priodol i adolygu'r gwasanaethau y tu allan i oriau. Fodd bynnag, hoffwn ofyn ichi ystyried yr amrywiaeth o waith sydd wedi ei gyflawni, neu sy'n cael ei gyflawni, ac aros nes bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi ystyried yr adroddiad diweddaraf cyn penderfynu. Byddwn yn croesawu cael eich barn.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services